ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

TGCH Blwyddyn 2

Uned 2C: Dod o hyd i wybodaeth

Ynglyn â'r uned:

Yn yr uned hon mae'r plant yn dysgu sut i chwilio am wybodaeth ar CD-ROM. Mae'r plant yn cael eu cyflwyno i CD-ROM fel modd i storio swm mawr o wybodaeth. Fe'u haddysgir i ddefnyddio dewislenni, mynegeion a geiriau allweddol i chwilio am luniau a chasglu gwybodaeth.

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth electronig fel CD-ROM a'r We Fyd-Eang mewn pynciau eraill.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod plant:

- yn gallu dewis eiconau
- yn gallu defnyddio tudalennau cynnwys a mynegeion printiedig

Geirfa:

Chwilio | CD-ROM | Dewislen | Mynegai | Gair Allweddol | Cysylltiadau poeth | gorgysylltiadau

Adnoddau:

Gwyddoniadur CD-ROM y mae modd ei chwilio drwy ddewislen, mynegai a gair allweddol

Disgwyliadau: Erbyn diwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: chwilio CD-ROM yn bwrpasol; dilyn llinellau ymholi uniongyrchol

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: gwelywio CD-ROM.

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: chwilio CD-ROM yn bwrpasol; dilyn llinellau ymholi uniongyrchol; dewis y technegau chwilio mwyaf priodol ar gyfer eu dibenion

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod Yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod CD-ROM yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth • **techneg:** defnyddio botymau i welywio CD-ROM	♦ Atgoffwch y dosbarth sut maen nhw'n defnyddio llyfrau i ddod o hyd i wybodaeth, a bod gan lyfrau hwy fynegeion i'w helpu nhw idod o hyd i wybodaeth. Dangoswch CD-ROM i'r dosbarth sy'n cynnwys cymaint o wybodaeth â nifer o lyfrau mawr gan ddefnyddio'r botymau i welywio drwy dudalennau. Trafodwch ffyrdd o ddod o hyd i wybodaeth ar CD-ROM	• sylweddoli bod CD-ROM yn dal llawer iawn o wybodaeth • sylweddoli bod angen defnyddio offer chwilio	
Tasgau Byr Wedi'u Ffocysu • **techneg:** chwilio, gan ddefnyddio dewislenni	♦ Defnyddiwch wyddoniadur ar CD-ROM i ddangos sut i gael hyd i'w gwybodaeth gan ddefnyddio dewislenni ♦ Gofynnwch i'r dosbarth pa eitem yn y ddewislen y dylid ei dewis i gael hyd i'w gwybodaeth benodol, *ee dewis 'ar lan y môr' i gael gwybodaeth ar grancod.*	• defnyddio dewislenni i gael hyd i wybodaeth	Gwiriwch fod modd dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol
• **techneg:** chwilio, gan ddefnyddio'r mynegai	♦ Defnyddiwch wyddoniadur ar CD-ROM i ddangos sut i gael hyd i wybodaeth gan ddefnyddio'r mynegai. Dangoswch sut i ddychwelyd i'r ddewislen/hafan. ♦ Gofynnwch i'r dosbarth ddefnyddio'r mynegai i gael hyd i wybodaeth benodol	• defnyddio mynegai i gael hyd i wybodaeth	Gellir helpu plant sy'n cael y gwaith yn anodd gyda rhan gyntaf y chwiliad, *ee chwilio yn 'anifeiliaid' ac wedyn gofyn i'r plant fanylu'r chwiliad.*

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	Gweithgareddau posib	Canlyniadau dysgu *Gall disgyblion*	Pwyntiau i'w nodi
Tasgau Byr Sydd Wedi'u Ffocysu (Parhad)			
• **techneg:** chwilio, gan ddefnyddio geiriau allweddol	♦ Defnyddiwch wyddoniadur ar CD-ROM i ddangos sut i gael hyd i wybodaeth drwy ddefnyddio gair allweddol. Gofynnwch i'r plant awgrymu rhai geiriau i roi cynnig arnynt. Camdeipiwch un gair yn fwriadol, i ddangos bod yn rhaid sillafu geiriau'n gywir. Dangoswch nad yw geiriau idiosyncratig fel 'pwsi' yn cael eu hadnabod. Esboniwch bod modd dod o hyd i rai eitemau gan ddefnyddio mwy nag un gair, *ee gellir dod o hyd i wybodaeth ar lewod gan ddefnyddio 'Affrica' neu 'sw'*. ♦ Gofynnwch i'r plant weithio mewn parau i ddefnyddio'r CD-ROM i ddod o hyd i luniau o anifeiliaid, *ee anifeiliaid sydd â blew, tri anifail sy'n byw yn y môr*. Gofynnwch iddynt ddefnyddio gair allweddol i chwilio yn ôl enw neu nodwedd.	• ddefnyddio geiriau allweddol i leoli gwybodaeth	• Mae plant yn disgwyl i'r cyfrifiadur 'feddwl', *ee deall bod 'bychan' yn golygu'r un peth â 'bach', neu deall camsillafu* • Gellir rhoi cerdyn gydag enw'r anifail i'w chwilio i blant sydd ag anawsterau sillafu
• **syniad allweddol:** bod modd cysylltu gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol ar yr un pryd • **techneg:** defnyddio cysylltiadau poeth neu orgysylltiadau i welywio CD-ROM	♦ Defnyddiwch wyddoniadur ar CD-ROM i ddangos sut i ddefnyddio cysylltiadau poeth neu orgysylltiadau i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am bwnc penodol. Dangoswch i'r dosbarth sut i olrhain eu hynt gan ddefnyddio'r botymau yn ôl ac ymlaen. ♦ Gofynnwch i blant weithio mewn parau i arbrofi'n rhydd gyda'r pecyn	• teimlo'n hyderus wrth welywio CD-ROM • dechrau chwilio am wybodaeth yn bwrpasol • defnyddio cysylltiadau poeth a gorgysylltiadau	• Dylai archwiliadau cyntaf feddu ar beth pwrpas ac mae angen amser i blant arbrofi • Dewiswch nodwedd amlwg yn niffiniad eich tasg fel bod pob grŵp yn llwyddo i ddod o hyd i wybodaeth

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasg Asesu • defnyddio technegau chwilio priodol i ddod o hyd i wybodaeth • defnyddio llinellau ymholi uniongyrchol	♦ Fel rhan o brosiect dosbarth ar anifeiliaid sy'n byw mewn amgylcheddau gwahanol, dewiswch ddwy ardal gyferbyniol, *ee pwll a chae*. Atgoffwch y dosbarth am ffyrdd gwahanol o chwilio am wybodaeth ar CD-ROM. ♦ Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau bach i ymchwilio i gynefinoedd gwahanol ar wyddoniadur CD-ROM. Atgoffwch y dosbarth i ddefnyddio'r botwm mynd yn ôl i olrhain eu hynt os ydynt yn mynd ar goll. Helpwch y plant i gopïo gwybodaeth i mewn i brosesydd geiriau a gofynnwch iddynt ysgrifennu brawddeg am yr anifeiliaid maen nhw wedi dod ar eu traws. Dylai'r frawddeg gynnwys y gair allweddol maen nhw wedi ei ddefnyddio. ♦ Gofynnwch i'r dosbarth gymharu chwilio am wybodaeth ar CD-ROM â chwilio am wybodaeth mewn gwyddoniadur printiedig. Gofynnwch iddynt ystyried p'un yw'r cyflymaf neu'r un mwyaf cyfleus	• ddefnyddio technegau priodol ac ymholiadau uniongyrchol i gael hyd i wybodaeth ar CD-ROM	• Mae cyfleusterau chwilio'n amrywio o ran cymhlethdod a hyblygrwydd. Treuliwch dipyn o amser yn ymgyfarwyddo â'r CD-ROM. • Atgoffwch y dosbarth mai un fantais i ddefnyddio mynegai neu ddewislen yw eu bod yn gwybod bod y wybodaeth yno, ond mae'n bosib na fyddai gair allweddol yno • Gellir rhoi cynefin o brif ddewislen neu'r mynegai i blant sydd ag anawsterau.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA